



***PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU
CYNALIADWY***

10.00 AM DYDD GWENER, 5 CHWEFROR 2021

O Bell Trwy Teams

Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod

1. Rhan 1
2. Croeso a galw'r rhestr
3. Cyhoeddiad y Cadeirydd
4. Datganiadau o fuddiannau
5. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol (*Tudalennau 3 - 20*)
 - 4 Rhagfyr 2020
 - 23 Rhagfyr 2020
6. Diweddariad am Dwristiaeth (*Tudalennau 21 - 30*)
7. Ymgynghoriad ar Gynigion Cyllidebol 2021/22 (*Tudalennau 31 - 42*)
8. Craffu Cyn Penderfynu
Dewis eitemau priodol o agenda'r Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau ar gyfer yr Aelodau Craffu)
9. Eitemau brys
Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgrisiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

K.Jones
Prif Weithredwr

Canolfan Ddinesig
Port Talbot

Dydd Gwener, 29 Ionawr 2021

Aelodaeth y Pwyllgor:

Cadeirydd: **S.K.Hunt**

Is-gadeirydd: **R.L.Taylor**

Cynghorwyr: D.Cawsey, C.J.Jones, H.N.James, S.M.Penry,
S.Pursey, S.Rahaman, N.T.Hunt, S.Bamsey,
J.Evans a/ac S.A.Knoyle

Nodiadau:

- (1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*
- (2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*
- (3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymhell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*
- (4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*
- (5) Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY

(O Bell Trwy Teams)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Gwener, 4 Rhagfyr 2020

Cadeirydd:	Cynghorydd S.K.Hunt
Is-gadeirydd:	Cynghorydd R.L.Taylor
Cynghorwyr:	D.Cawsey, H.N.James, S.Purse, S.Rahaman, N.T.Hunt, S.Bamsey a/ac S.A.Knoyle
Swyddogion sy'n Bresennol:	S.Brennan, C.Plouman, N.Headon, C.Jones, B.Dennedy, M.Rafferty, E.Barrett a/ac Williams
Gwahoddedigion y Cabinet:	Cynghorwyr A.Wingrave a/ac L.Jones

1. **CYNLLUN YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, CAM-DRIN DOMESTIG, TROSEDDAU CASINEB, CAMDDEFNYDDIO CYFFURIAU**

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor a oedd yn cynnwys y pynciau y gofynnodd yr Aelodau am yr wybodaeth ddiweddaraf arnynt, yn dilyn eu Gweithdy Blaenraglen Waith Adfywio a Datblygu Cynaliadwy diweddar; roedd y pynciau hynny'n cynnwys Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Cam-drin Domestig, Troseddau Casineb a Chamddefnyddio Cyffuriau.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Hysbyswyd yr Aelodau mai prif ffocws y gwaith eleni ar gyfer y Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol oedd y problemau yng nghanol trefi, yn enwedig ardal Gwesty'r Ambassador yng nghanol tref Castell-nedd; roedd y cwynion cyffredinol gan breswylwyr yn ymwneud â phroblemau yfed a chyffuriau yn y stryd, a bu cynnydd bach yn nifer y bobl sy'n cardota dros yr wythnosau diwethaf y nodwyd ei fod yn ddisgwyliedig ar yr adeg hon o'r flwyddyn.

Esboniodd swyddogion fod y gwaith yng nghanol tref Castell-nedd wedi dechrau ym mis Mehefin ar ôl i'r cyfyngiadau symud gael eu

codi; rhoddwyd gwaith partneriaeth sylweddol ar waith ac ers hynny bu gwelliant pendant mewn gwaith. Soniwyd bod rhai problemau o hyd yng Ngwesty'r Ambassador, fodd bynnag roedd cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal ac ymdriniwyd ag unrhyw broblemau mor effeithlon â phosib. Nodwyd bod y cyfarfod partneriaeth nesaf wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth 15 Rhagfyr ac yn y cyfarfod hwn roedd swyddogion yn gobeithio datrys unrhyw broblemau a oedd yn weddill o'r gwaith a oedd wedi'i gwblhau; byddai unrhyw broblemau pellach yn cael eu cyfeirio at y grŵp datrys problemau a arweinir gan yr heddlu ar ôl hynny.

Soniwyd bod dwy ymgyrch yn cael eu rhoi ar waith drwy gydol mis Rhagfyr i dargedu rhai agweddau ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol; Ymgyrch Shoebill a fydd yn ymdrin â throseddau manwerthu ac Ymgyrch Kilmarnock a fydd yn ymdrin ag yfed yn y stryd.

O ran cyfarfodydd partneriaeth, roedd Swyddogion wedi bod yn cyfarfod â chynghorwyr lleol mewn ardaloedd lle tynnwyd sylw at broblemau, er enghraifft cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar gyda chynghorwyr lleol, partneriaid a'r Tîm Ardal Gwella Busnes (BID) ym Mhort Talbot.

Dywedwyd bod Gorsaf Heddlu deithiol wedi'i lleoli yng nghanol tref Port Talbot tan ddiwedd mis Tachwedd ac yn dilyn trafodaethau â'r sarsiant a oedd yn gweithio yno, roedd gwelliannau wedi'u gwneud gan fod unigolion a oedd wedi cyflawni gweithredoedd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi'u hadnabod ac roedd gwaith yn cael ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r problemau penodol hyn.

Yn ardal Llansawel, nodwyd bod y problemau wedi ymwneud yn bennaf â landlordiaid tlawd a phroblemau'n ymwneud â'r eiddo; Roedd lechyd yr Amgylchedd wedi derbyn y rhan fwyaf o'r problemau hyn gan eu bod yn ymwneud â thipio anghyfreithlon a chyflwr gwael eiddo.

Hysbyswyd yr Aelodau fod GW Logs yn broblem fawr yn ardal Gwauncaegurwen ac ym mis Tachwedd roedd achos llys lle cafodd unigolion eu herlyn yn llwyddiannus am les gwael anifeiliaid; roedd rhywfaint o waith yn parhau i gael ei wneud yn yr ardal hon gan fod problemau ychwanegol wedi codi'n ddiweddar, felly bydd swyddogion yn gweithio gyda'r cynghorydd lleol yn yr ardal i fynd i'r afael â'r rheini.

Dywedwyd bod cyfarfod partneriaeth am Waith y Wern yn Llansawel i fod i gael ei alw er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sy'n dod i'r

amlwg ar y safle; Roedd swyddogion mewn cysylltiad â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynghylch hyn. Soniwyd bod rhan o'r hysbysiad a gyflwynwyd yn ymwneud â chlirio'r adeilad mewnol, a oedd wedi'i gwblhau, fodd bynnag, nid oedd y mynedfeydd i mewn i'r adeilad wedi'u sicrhau eto; roedd hyn yn rhywbeth yr oedd swyddogion yn awyddus i'w gwblhau gan fod pryderon ynghylch tipio anghyfreithlon a'r defnydd o'r safle.

O ran diffyg diddordeb ymhlith pobl ifanc, nodwyd mai ychydig iawn a oedd yn cael ei adrodd i'r tîm drwy'r rhif cyswllt 101 ynghylch problemau ymddygiad gyda phobl ifanc; y flwyddyn nesaf bydd darn o waith yn cael ei wneud gyda Gwasanaeth Ymyrryd yn Gynnar Cyfiawnder Ieuencid, Gwasanaeth Ieuencid CNPT a Heddlu De Cymru i edrych ar ffactorau fel bylchau yn y gwasanaeth, lle mae angen gwneud darnau eraill o waith a'r hyn y gall y timau ei wneud o ran cefnogaeth. Anogwyd yr Aelodau i roi gwybod i'r tîm am unrhyw bryderon yn eu wardiau neu i roi unrhyw awgrymiadau sydd ganddynt.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth ar gyfer Pobl Ddiamddiffyn ar y Stryd (MARAC). Tynnwyd sylw at y ffaith y dechreuwyd MARAC ar gyfer Pobl Ddiamddiffyn ar y Stryd ym mis Tachwedd 2017 i fynd i'r afael â phroblemau yng nghanol trefi; Mae 58 o bobl wedi dod drwy'r fforwm ers hynny ac ymdrinnir â 12 o bobl ar y rhestr ar hyn o bryd. Ychwanegwyd bod gan swyddogion berthynas waith gadarnhaol iawn â'r partneriaid sy'n mynychu'r cyfarfodydd hyn.

I gloi'r cyflwyniad, dywedwyd bod y Tîm Diogelwch Cymunedol yn mabwysiadu ymagwedd datrys problemau ym mhob agwedd ar y gwaith ac yn cydweithio ag asiantaethau a phartneriaid gymaint â phosib er mwyn nodi achosion y problemau yn y gymuned ac ymdrin yn benodol â'r achosion hynny; roedd y gwaith a wnaed yn ddiweddar yn amlygu manteision y math hwn o ymagwedd.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd swyddogion yn derbyn cydweithrediad gan y rheini sy'n ymwneud ag ymdrin â Gwaith y Wern yn Llansawel. Nodwyd bod CNC wedi rhoi cyfrifoldeb yr hysbysiad o glirio a diogelu'r safle yn nwylo'r sefydliad ac y dylai fod wedi'i gwblhau beth amser yn ôl; darparwyd terfyn amser penodol i gwblhau'r gwaith, fodd bynnag fel y soniwyd eisoes nid oedd wedi'i wneud eto. Esboniwyd bod CNC yn mynd i'r llys ddydd Llun yr wythnos nesaf mewn perthynas â'r hysbysiad hwn; Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn

cysylltu â'r aelodau lleol gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am yr achos yn dilyn canlyniad y llys.

O ran ateb tymor hir, gofynnwyd a oedd Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (GDMAcCau) yn ddarn o ddeddfwriaeth a fyddai'n gweithio ar gyfer canol trefi, ac os felly, a allai canol trefi Castell-nedd a Phort Talbot ystyried eu cyflwyno. Dywedwyd bod trafodaethau ynghylch canol trefi yn parhau, fodd bynnag ar hyn o bryd nid oedd swyddogion yn ystyried cyflwyno GDMAcCau yng nghanol y dref am nifer o resymau, gan gynnwys y pwynt a godwyd yn flaenorol mewn perthynas â'r ymagwedd at dargedu'r achos a defnyddio technegau datrys problemau; roedd tystiolaeth wedi awgrymu, yn lleol ac yn genedlaethol, fod yr ymagwedd hon yn gweithio gan ei fod yn fwy effeithiol ac y gellid defnyddio amrywiaeth o offer. Nodwyd nad oedd GDMAcCau yn targedu'r broblem yn fanwl ac y byddent yn debygol o symud y broblem ymlaen i ardal arall ac achosi gweithgareddau gwahanol o ran Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a allai fod hyd yn oed yn fwy niweidiol; maent hefyd yn mynnu bod llawer o waith yn cael ei wneud cyn, yn ystod ac ar ôl iddynt gael eu cyflwyno ac ar hyn o bryd does dim adnoddau i'w gorfodi. Ychwanegodd swyddogion fod edrych ar y darlun ehangach a nodi'r camau gweithredu mwyaf effeithiol yn hynod fuddiol; adnabod yr unigolion sy'n achosi'r problemau, cysylltu â phartneriaid mewnol ac allanol ac ymdrin ag achosion unigol. Tynnwyd sylw at y ffaith pe bai Aelodau'n teimlo nad oedd meysydd penodol yn cael eu cynnwys neu os oeddent yn ymwybodol o unrhyw faterion parhaus, y dylent gysylltu â'r swyddogion er mwyn trefnu ymagwedd addas.

Gofynnwyd i swyddogion a oedd ffordd o wirio bod problemau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cael eu datrys ac a oedd ffordd o fesur effeithiolrwydd yr ymagweddau a oedd yn cael eu defnyddio. Dywedwyd bod swyddogion wedi gweld gwahaniaeth mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar draws y sir yn ystod y cyfnod dan gyfyngiadau symud; roedd yr ymagwedd amlasiantaethol wedi bod yn gweithio fel y cadarnhawyd gan breswylwyr a'r gwelliannau a welwyd ar y strydoedd. Tynnwyd sylw at y ffaith bod unigolion, gan gynnwys y masnachwyr yng nghanol trefi, wedi gweld gwelliannau'n arbennig pan oedd uned deithiol yr heddlu wedi'i lleoli yng nghanol y dref; nid oedd modd parcio'r uned hon yno drwy'r amser oherwydd cyfyngiadau ar amser ac argaeledd swyddogion yr heddlu, fodd bynnag roedd uned deithiol wedi'i gosod bellach yn yr ardal reoli orllewinol ac mae'n debygol y byddai'n cael ei gweld yng Nghastell-nedd a Phort Talbot yn amlach dros y misoedd nesaf. Nodwyd bod

angen ymdrin â phroblemau pan fyddant yn codi ac y byddent yn cael eu monitro'n rheolaidd; amlygwyd bod presenoldeb yng nghanol trefi ac ardaloedd eraill lle roedd gwrthdaro, er enghraifft ceffylau'r heddlu yng Nghastell-nedd, yn bwysig.

Codwyd y mater bod artistiaid stryd yn defnyddio lleoliadau, fel Gwaith y Wern yn Llansawel, gan nad oedd waliau na lleoedd cyfreithiol ar hyn o bryd iddynt arddangos eu celfyddyd yng Nghastell-nedd Port Talbot; Nododd swyddogion y pwynt hwn fel rhywbeth y gellid ei godi o bosib mewn trafodaethau yn y dyfodol gyda Gwasanaeth Ieuencid CNPT. Ychwanegwyd y byddai'n fuddiol nodi lle penodol ar gyfer artistiaid stryd er mwyn eu hatal rhag defnyddio'r mathau hyn o leoliadau.

Gofynnodd yr Aelodau am yr wybodaeth ddiweddaraf am y problemau sy'n dod i'r amlwg yng Nghlwb Gweithwyr Tai-bach; codwyd y lleoliad hwn mewn cyfarfod diweddar o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, lle mynegodd llawer o bobl eu pryderon ynghylch y lleoliad penodol hwn. Dywedwyd bod camau wedi'u cymryd i CNC drefnu cyfarfod i drafod y problemau; Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am hyn maes o law, gan y byddai angen iddynt wybod beth oedd y sefyllfa bresennol gan fod cydweithwyr yn lechyd yr Amgylchedd mewn cysylltiad â Cyfoeth Naturiol Cymru. Ychwanegwyd bod landlord y clwb wedi ceisio gofyn am help o'r blaen mewn perthynas â'r problemau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, felly byddai cysylltu â'r landlord a darparu cymorth ychwanegol yn help sylweddol wrth geisio datrys y problemau.

Diolchodd yr Aelod Lleol dros Aberafan i'r heddlu am eu heffeithlonrwydd a'u gwaith yn ystod digwyddiad Llinellau Sirol diweddar ym mis Awst 2020.

Anogwyd yr Aelodau i gyfrannu at y Cynllun Ymddygiad Gwrthgymdeithasol lle bo angen er mwyn helpu i gyflwyno newid ac adrodd am broblemau er mwyn iddynt gael eu datrys; nodwyd bod gweithio mewn partneriaeth yn allweddol yn y maes gwaith hwn felly roedd cysylltu ag Aelod y Cabinet, swyddogion a'r heddlu yn bwysig.

Cam-drin Domestig

Er gwaethaf cynnydd yn y galw ar y Gwasanaeth Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol oherwydd pandemig COVID-19, nodwyd bod y gwasanaeth wedi gallu cynnal darpariaeth gwasanaeth o safon uchel ac addasu trefniadau ac arferion gweithio. Roedd swyddogion

yn falch o fod wedi cael adnoddau ychwanegol ar ffurf dau Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol amser llawn newydd; byddant yn lleddfu'r pwysau'n fewnol, a achosir o ganlyniad i gynnydd yn y galw, a byddant yn creu cwrmpas i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau a ddarperir ymhellach yn y dyfodol.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol) CNPT mewn perthynas â cham-drin domestig a'i fod yn ddiweddar wedi penodi rôl Cydlynnydd ar gyfer hyn, a oedd yn ganolog i effeithiolrwydd y broses; er enghraifft drwy sicrhau bod llyf priodol o wybodaeth, bod risgiau'n cael eu rhannu a bod nodiadau a chymau gweithredu clir yn cael eu cofnodi Ychwanegwyd bod hyfforddiant ar gyfer partneriaid y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth ar gyfer Pobl Ddiamddiffyn ar y Stryd wedi'i drefnu a bod Grŵp Llywio i oruchwylio gwaith y MARAC, sy'n myfyrio ar ei effeithiolrwydd.

Cyflwynwyd ystadegau diweddar i'r Aelodau gan Wasanaeth IDVA CNPT a oedd yn cynnwys:

- 268 o atgyfeiriadau ar gyfer achosion risg uchel ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Hydref 2020
- Ar gyfer y cyfnod hwnnw, ymgysylltodd 64% â'r gwasanaeth – roedd hwn yn ymgysylltu ystyrion lle rhoddwyd dulliau rheoli risg a chynllunio diogelwch ar waith
- Cofnodwyd 13% lle cysylltwyd â'r dioddefwr ond gwrthodwyd mewnbwn gan IDVA
- Cofnodwyd 10% lle nad oedd y gwasanaeth yn gallu sefydlu cyswllt uniongyrchol er gwaethaf ymdrechion mawr, yn unol â pholisi derbyn y gwasanaeth
- Roedd 335 o blant yn gysylltiedig ag achosion a gafodd eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth – roedd y Grŵp Arweinyddiaeth wedi nodi'r pwynt hwn gan fod darparwyr arbenigol yn adrodd am ostyngiad yn nifer y plant y maent yn eu cefnogi, ac nid oedd gwasanaeth wedi nodi gostyngiad; nodwyd bod angen gwneud gwaith ar y mater hwn a rhoddwyd y dasg i'r Grŵp Arweinyddiaeth

Mewn perthynas â thueddiadau amlwg, tynnwyd sylw at y ffaith y bu cynnydd mewn achosion lle nodwyd beichiogrwydd (4%), cynnydd mewn dioddefwyr gwrywaidd (hyd at 6%) a gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau o achosion mynych/cymhleth; Soniodd y swyddogion eu bod yn synnu gweld y gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau o achosion

mynych/cymhleth oherwydd yn ystod y gweithrediadau arferol byddent yn gweld bod rhai achosion wedi dychwelyd.

Yn flaenorol, roedd gwaith y Tîm Cam-drin Domestig wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddioddefwyr, fodd bynnag roeddent bellach yn paratoi i wneud rhagor o waith gyda thramgwyddwyr gyda'r cyfle i newid eu hymddygiad. Nodwyd bod rhaglen wedi'i hariannu gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer tramgwyddwyr o'r enw DRIVE a oedd wedi dechrau cael ei chyflwyno ar draws Bae'r Gorllewin; nodwyd bod y rhaglen hon yn ymyriad dwys, gan weithio gyda thramgwyddwyr difrifol a'r rheini sy'n cyflawni'r un drosedd dro ar ôl tro i herio'u hymddygiad a lleihau cam-drin. Ychwanegodd swyddogion fod IDVA DRIVE wedi'i recriwtio i weithio yn y Tîm DRIVE. Gofynnodd yr Aelodau a oedd y rhaglen DRIVE yn cael ei chynnal yn wirfoddol gan dramgwyddwyr; Dywedodd swyddogion y byddent yn cael gwybod yr wybodaeth hon ac yn rhoi gwybod i'r Aelodau yn unol â hynny.

Gofynnwyd i swyddogion am y cynnydd canrannol mewn achosion o Gam-drin Domestig ers dechrau'r cyfyngiadau symud. Dywedwyd bod cynnydd dramatig yn y gwasanaeth IDVA yn arbennig, fodd bynnag byddai angen cadarnhau'r union ffigurau. Soniodd swyddogion y gallai'r ffigurau a'r tueddiadau ar gyfer yr asiantaethau arbenigol fod yn wahanol. Awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor gynnwys tueddiadau a ffigurau Cam-drin Domestig i'r Blaenraglen Waith er mwyn cael rhagor o wybodaeth a manylion gan y darparwyr arbenigol a gwasanaeth IDVA o gyfnod y cyfyngiadau symud.

Yn dilyn y cyflwyniad, tynnwyd sylw at y ffaith bod y strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn nodi blaenoriaethau gwaith clir ac yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth gan gynnwys y cynnydd yn y galw am wasanaethau; un o'r blaenoriaethau a restrwyd oedd sicrhau bod negeseuon yn cael eu cyfleu i'r cyhoedd, mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan roi gwybod iddynt fod gwasanaethau'n dal i fod ar agor a bod cymorth ar gael o hyd.

Troseddau Casineb

Cafodd y Pwyllgor drosolwg o waith Swyddog Cydlyniant Cymunedol CNPT, a oedd yn cynnwys cysylltiadau â'r Tîm Cyfathrebu a Chymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du CNPT. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y cyfarfodydd monitro bwriadau wythnosol gyda chydweithwyr a phartneriaid yr heddlu, er enghraifft Prifysgol

Abertawe, yn ddefnyddiol iawn o ran rhannu gwybodaeth mewn perthynas â Throseddau Casineb yn yr ardal.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys graffiau a ddarparwyd gan gymorth i ddioddefwyr, sy'n anfon diweddariadau misol i'r awdurdodau lleol a restrwyd, ar y dadansoddiad o droseddau casineb yr adroddwyd amdanynt yn yr ardal honno bob mis. Nodwyd bod pryderon difrifol yn y gymuned Tsieineaidd ar ddechrau'r pandemig, gan fod adroddiadau bod unigolion mewn siopau a phrifysgolion yn cael eu cam-drin oherwydd tarddiad y feirws; er y bu cynnydd mewn Troseddau Casineb yn yr ardal benodol honno, roedd y ffigurau wedi aros yn eithaf cyson ac ni wnaethant godi'n ddramatig yn ystod y misoedd. Roedd un o'r graffiau'n dangos dadansoddiad o'r gwahanol fathau o Droseddau Casineb yr adroddwyd amdanynt a oedd yn cynnwys anabledd, hunaniaeth rhyw, hil, crefydd a thueddfryd rhywiol; yng Nghastell-nedd Port Talbot, adroddwyd am y nifer canlynol o ddigwyddiadau ar gyfer mis Tachwedd 2020:

- Anabledd – 2
- Hil – 9
- Tueddfryd Rhywiol – 1
- Anhysbys – 1

Hysbyswyd yr Aelodau fod y Swyddog Cydlyniant Cymunedol yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r Swyddog Troseddau Casineb yng Ngorsaf Heddlu Castell-nedd a'i fod wedi derbyn adroddiadau wythnosol gan yr URS Orllewinol. Nodwyd bod yr adroddiad diweddar a dderbyniwyd yn amlygu rhai digwyddiadau yn yr ardal; Soniodd swyddogion y gallent ddosbarthu'r adroddiad hwn a'r ystadegau i'r Aelodau os hoffent gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiadau.

Amlygwyd bod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb eleni ar 10 Hydref 2020 hyd at 17 Hydref 2020 ac yn ystod yr wythnos hon cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ar-lein:

- Digwyddiad Lansio Ar-lein – gweithiwyd gyda Chyngor Hil Cymru, Cymorth i Ddioddefwyr a Heddlu De Cymru ar y digwyddiad hwn; ymunodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru, Y Gwir Anrh Alun Michael â'r digwyddiad hefyd a nodwyd ei fod yn cael ymateb da iawn.
- Gweminar gydag Arti Shah – rhoddodd yr actores 4 troedfedd o daldra weminar ar y pwnc Troseddau Casineb a siaradodd am brofiad personol mewn perthynas ag effaith Troseddau

Casineb; Cafodd swyddogion adborth ardderchog gan y rhai a oedd yn cymryd rhan.

- Hyfforddiant Troseddau Casineb Hyrwyddwr Cymunedol – gweithiwyd gyda Chyngor Hil Cymru a'r Swyddog Troseddau Casineb i ddarparu hyfforddiant ar-lein i geisio galluogi pobl yn y gymuned i rannu gwybodaeth ynghylch Troseddau Casineb a sut i adrodd amdano. Ychwanegwyd bod hyfforddiant staff wedi'i drefnu, fodd bynnag bu'n rhaid ei ohirio; Bydd swyddogion yn awyddus i aildrefnu'r hyfforddiant hwn ar gyfer y dyfodol.
- Sesiwn Galw heibio Misol Ar-lein i bobl Draws – wedi gweithio gyda'r Swyddog Troseddau Casineb i ddarparu lle diogel i'r rheini yn y gymuned Draws ddod at ei gilydd a siarad; mae'r sesiynau hyn yn cael eu cynnal gyda'r hwyr ar hyn o bryd ac os ydynt yn parhau i fod yn llwyddiannus, roedd cynlluniau ar y gweill i ddefnyddio arbenigwyr i ddarparu cymorth a chyngor i'r rheini a oedd yn dod iddynt. Soniwyd nad oedd y sesiynau hyn yn cael eu hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol ar hyn o bryd oherwydd sensitifwyd y pwnc; yn hytrach cawsant eu hyrwyddo ar lafar yn y gymuned Draws.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw adnoddau ar gael i wneud gwaith ar atal yn lleol; trwy weithio gyda llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn benodol, fel Facebook, i bostio negeseuon a hysbysebion. Dywedwyd y gallai swyddogion ymchwilio i hysbyseb y telir amdano ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac y gallent hefyd ymchwilio i gyllid mewn perthynas ag ymgyrchoedd y telir amdanynt; roedd cyfleoedd i ddefnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol Diogelwch Cymunedol yn ogystal â chyfathrebu corfforaethol y cyngor a llwyfannau Cymdeithasau Lleiafrifoedd Ethnig a Du. Darparwyd rhai enghreifftiau o ymarferion atal presennol gan gynnwys y lluniau a'r wybodaeth a fideos newyddion ffug y mae BBC Bitesize yn eu defnyddio. Ychwanegwyd nad oedd gan swyddogion unrhyw reolaeth dros ba negeseuon roedd llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, fel Facebook, yn eu caniatáu ar y llwyfan; fodd bynnag, gallai gweithio gyda'i gilydd yn lleol ar y mater hwn wneud gwahaniaeth wrth fynd i'r afael â Throseddau Casineb ar-lein.

Gofynnwyd a oedd unrhyw un yng Nghastell-nedd Port Talbot erioed wedi cael ei erlyn am gyflawni Trosedd Casineb ar-lein neu hyrwyddo araith gasineb ar-lein, ac a oedd gan yr heddlu unrhyw bwerau mewn perthynas â'r negeseuon ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft a fyddai ganddynt yr awdurdod i ofyn i negeseuon gael eu

tynnu i lawr os oeddent yn hyrwyddo Troseddau Casineb. Cytunwyd y byddai'r cwestiynau hyn yn cael eu hanfon drwy e-bost at yr Arolygydd Claire Morgan.

Mynegodd yr Aelodau yr angen i wneud gwaith ataliol gyda phobl ifanc, yn enwedig mewn ysgolion, gan fod y gwaith yn bennaf ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn flaenorol. Soniwyd bod gan ysgolion gynlluniau ar waith fel y Criw Croch, a'u bod yn bwriadu cyflwyno rhagor gan gynnwys hyfforddiant i staff a 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth' ar gyfer plant. Anogwyd yr Aelodau i siarad â chydweithwyr yn yr Heddlu i fynegi'r angen am ragor o waith ataliol mewn ysgolion a darparu unrhyw syniadau.

Camddefnyddio Cyffuriau

Hysbyswyd y Pwyllgor fod Tîm Comisiynu a Chyflawni Camddefnyddio Sylweddau'r Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA) dan ofal cyngor CNPT a bod CNPT yn cynnal y tîm hwn o ran derbyn y cyllid ar gyfer y Rhanbarth. Cydnabuwyd bod angen gwella'r ffordd yr oedd gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yn cael eu darparu ar draws y Rhanbarth, felly roedd angen gwneud gwaith allweddol.

Yn flaenorol, comisiynwyd ymgynghorwyr i gynnal adolygiad o'r gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau; arweiniodd yr adolygiad hwnnw at adroddiad yn edrych ar fodel diwygiedig. Fodd bynnag, arweiniodd gwaith pellach yn dilyn uwchgynhadledd genedlaethol ar gyffuriau at y cysyniad o Fodel Iechyd Cyhoeddus cwbl integredig newydd.

Cadarnhawyd bod y BCA a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd wedi cytuno i ddechrau ar y gwaith o ddatblygu Model Iechyd Cyhoeddus integredig newydd â ffocws go iawn ar agweddau megis atal, trin a gorfodi; roedd y prosiect hwn yn mynd i brosiect trawsnewid enfawr a fydd yn cael ei gyflwyno gan dîm a fydd yn cael ei arwain gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Roedd swyddogion hefyd yn mynd i edrych ar ffordd wahanol o gomisiynu'r gwasanaeth o ran cael ymagwedd fwy cydweithredol/cyfunol a fydd yn cynnwys cyfuno cyllidebau ar draws Iechyd Cyhoeddus, BCA, a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ddatblygu gwasanaeth llawer mwy effeithiol a hygyrch. Nodwyd nad oedd y prosiect yn 'ateb cyflym' ac y byddai'n cymryd amser i'w sefydlu, fodd bynnag roedd cynlluniau i ddatblygu'r gwaith hwn hyd yn oed ymhellach yn y flwyddyn newydd.

Dywedwyd bod y gwasanaeth wedi parhau i weithredu mewn gwahanol ffyrdd yn ystod y pandemig; roedd llawer o'r gwaith wyneb yn wyneb, ar sail 1-1 ac ar sail grŵp, wedi dod i ben ac roedd grwpiau rhithwir yn cael eu cynnal yn lle, lle y gallai pobl fod yn rhan ohonynt ar-lein. Nodwyd bod apwyntiadau, lle y bo'n bosib, yn cael eu cynnal dros y ffôn neu ar ffurf cyfryngau rhithwir; roedd rhywfaint o waith wyneb yn wyneb yn dal i gael ei wneud ar gyfer pobl a oedd mewn perygl ac roedd angen y math hwnnw o gymorth arnynt, fodd bynnag sicrhau bod mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith a bod Cyfarpar Amddiffyn Personol (PPE) yn cael ei ddefnyddio lle bo angen.

O ran rhannu gwybodaeth, esboniwyd bod cydweithwyr yn y trydydd sector wedi datblygu cryn dipyn o adnoddau yr oeddent wedi bod yn eu cyhoeddi ar eu gwefannau i bobl, gan gynnwys canllawiau hunangymorth.

Ers dechrau'r pandemig, dywedwyd bod sefydliadau wedi cael eu hysbrydoli i wella'r ffordd y maent yn gweithio gyda'i gilydd a chynnig ymagwedd hyblyg drwy helpu mewn meysydd gwasanaeth eraill lle'r oedd pwysau penodol; er enghraifft, roedd cytundeb gweithio ar y cyd ar draws yr holl wasanaethau i helpu i sicrhau y gallai unigolion, y mae angen iddynt hunanynysu ac nad oedd ganddynt unrhyw un o'u cwmpas i'w helpu, barhau i gael gafael ar eu meddyginiaeth.

Nodwyd bod swyddogion wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio i wasanaethau triniaeth strwythuredig yn chwarter 2 (mis Gorffennaf hyd at fis Medi) o'i gymharu â chwarter 1 (mis Ebrill hyd at fis Mehefin); gwnaed darn o waith gyda darparwyr i geisio nodi pam roedd hyn wedi digwydd. Nodwyd yn yr adroddiad fod darparwyr wedi datgan mai rhai o'r rhesymau posib dros hyn oedd:

- Nad oedd pobl yn gofyn am help yn ystod dyddiau cynnar y pandemig, gan eu bod am aros nes bod y pandemig wedi dod i ben
- Mwy o bobl nad oedd yn rhaid iddynt fynd i'r gwaith (roedd llawer mwy o bobl yn yfed oherwydd hyn, ac oherwydd tywydd yr haf)

Amlygodd swyddogion fod pryderon mewn perthynas â'r cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau i bobl ifanc, fodd bynnag nodwyd bod hyn o ganlyniad i hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth gwell yn ystod y cyfyngiadau symud. Ychwanegwyd bod y defnydd o

gyffuriau ymhlith pobl ifanc wedi lleihau oherwydd y cyfyngiadau symud.

Cafodd yr Aelodau yr wybodaeth ddiweddaraf am rai o'r datblygiadau yn y gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau, a oedd yn cynnwys sefydlu systemau a phrosesau monitro contractau cadarn; roedd y prosesau hyn yn helpu'r gwasanaeth i ddeall a nodi unrhyw broblemau sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau. Er enghraifft, daeth yn amlwg nad oedd y gwasanaeth Cwnsela yn darparu gwerth am arian, felly cynhaliwyd proses o ailgostio a oedd wedi lleihau lefel y cyllid ond a gadwodd yr un faint o ddarpariaeth. Soniwyd bod hyn wedi galluogi rhyddhau cyllid fel y gallai'r gwasanaeth fuddsoddi mewn unedau rhagnodi trothwy isel ychwanegol; byddai cynyddu nifer yr unedau rhagnodi trothwy isel wedyn yn rhyddhau adnoddau, yn y gwasanaeth rhagnodi, sy'n gweithio gyda phobl ag anghenion mwy cymhleth. Yn ogystal â hyn, nodwyd bod y gwasanaeth wedi prynu nifer o leoedd ar gyfer gwasanaeth rhagnodi mynediad cyflym fel y gallai pobl sydd yn y perygl mwyaf o gael niwed gael mynediad at wasanaeth rhagnodi'n eithaf cyflym. Ychwanegodd swyddogion fod y gwasanaeth wedi mabwysiadu ymagwedd allgymorth bendant a oedd yn golygu os nad oedd pobl yn cadw'u hapwyntiadau, y byddai'r staff yn mynd allan i'r gymuned i ddod o hyd iddynt.

Esboniwyd bod y staff wedi nodi problem gyda'r ffordd yr oedd pobl yn defnyddio gwasanaethau; yn flaenorol, cynhaliwyd y broses hon drwy wasanaeth asesu, fodd bynnag nid oedd gan y gwasanaethau hyn y gallu i asesu nifer y bobl yr oedd angen iddynt ddod drwy'r gwasanaeth. Hysbyswyd yr Aelodau fod cynnig newydd wedi'i ddatblygu i newid y ffordd yr oedd y llwybr i'r gwasanaeth yn cael ei weithredu; ar hyn o bryd roedd staff yn gweithio gyda phartneriaid ar draws gwasanaethau i sicrhau y bydd y broses arfaethedig newydd yn gweithio heb gael unrhyw effaith negyddol.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith monitro contractau newydd, soniwyd bod swyddogion wedi bod yn edrych ar yr wybodaeth yr oeddent yn gofyn i wasanaethau ei chofnodi ac adrodd amdani, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn ddefnyddiol ac wedi rhoi'r wybodaeth yr oedd ar y BCA ei hangen i allu gwneud penderfyniadau am gomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol a nodi unrhyw broblemau gyda pherfformiad; roedd cyfres o ddangosfyrddau'n cael eu datblygu y gellid eu defnyddio gan fonitro contractau a'r BCA, i dynnu sylw staff at unrhyw broblemau sy'n ymwneud â'r gwasanaethau ac yn galluogi staff i weithredu wedyn.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r Rhaglen Mynd â Naloxone Gartref; Byddai Naloxone yn cael ei roi i bobl sy'n cymryd cyffuriau cysgu, i wrthdroi effeithiau gorddos cyffuriau cysgu. Pan gwblhawyd cymhariaeth rhwng chwarter un a chwarter dau, nodwyd bod 48 yn llai o becynnau wedi'u dosbarthu yn chwarter dau, fodd bynnag, pan archwiliwyd hyn ymhellach, dangosodd gwybodaeth fod cynnydd o 40% yn y pecynnau oedd wedi'u dosbarthu yn chwarter un a oedd yng nghanau cynnar y pandemig. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith y gellid cynnig chwistrellu Naloxone yn drwynol a thrwy bigiad am y tro cyntaf yn ddiweddar; roedd chwistrelliadau trwynol Naloxone yn rhoi'r cyfle i ddosbarthu'r pecyn i'r gymuned ehangach a phartneriaid, teuluoedd a gofalwyr ehangach na fyddent fel arfer yn gallu cario pecyn pigiadwy. Dywedwyd bod Ffederasiwn yr Heddlu wedi gwrthod y cais i gario pecynnau chwistrelli trwynol Naloxone, fodd bynnag roedd Heddlu De Cymru wedi cytuno i hyn ac roedd eu Swyddogion Heddlu'n gwirfoddoli i gario'r pecyn; y gobaith oedd, unwaith y bydd Swyddogion yr Heddlu'n dechrau cario'r pecynnau chwistrelli trwynol Naloxone, y byddai Ffederasiwn yr Heddlu yn cytuno arno ac y byddai Heddlu De Cymru i gyd yn cario'r pecynnau. Nodwyd bod gweithwyr allgymorth yn dosbarthu pecynnau a bod pecynnau post ar gael ar gais hefyd; roedd staff yn nodi'r rheini oedd yn y perygl mwyaf, nad oeddent yn gallu cerdded yn gorfforol i mewn i wasanaethau oherwydd bod angen iddynt hunanynysu etc. fel y gallent bostio'r pecynnau atynt. Ychwanegodd swyddogion fod staff a staff diogelwch yng Ngwesty'r Ambassador yng Nghastell-nedd hefyd wedi cael eu hyfforddi o ran Naloxone; roedd ymweliadau diweddar â'r safle wedi tynnu sylw at y gwaith eithriadol sy'n cael ei wneud gan staff ac roeddent yn awyddus iawn i wasanaethau gysylltu â nhw a darparu gwasanaethau yn y gwesty.

O ran cyfnewid nodwyddau, dywedwyd bod gostyngiad o 40-50% ar draws y rhanbarth mewn gweithgarwch cyfnewid; dangosodd y data fod y gostyngiad mewn gweithgarwch yn bennaf mewn defnyddwyr steroidau, a oedd yn ôl pob tebyg oherwydd y cyfyngiadau ar deithio a champfeydd yn cau, felly nid oedd gan y defnyddwyr penodol hyn yr ysgogiad i'w defnyddio. Nodwyd bod y gostyngiad yn y trafodion i'w weld yn bennaf mewn fferyllfeydd.

Hysbyswyd yr Aelodau fod Tasglu Gwenwyno gan Gyffuriau wedi'i sefydlu fel rhan o'r gwaith lleihau niwed a oedd yn cael ei wneud, lle cynhaliwyd adolygiadau ar bob gwenwyn cyffuriau, a bod staff wedi darparu ymyriad a chymorth i'r rheini sydd wedi cael gorddos o gyffuriau nad oedd yn angheuol; bu mwy o dwf yn y grŵp a oedd yn

galluogi staff i gryfhau'r llywodraethu a datblygu polisïau a gweithdrefnau a oedd yn caniatáu i'r Tasglu gyflwyno canlyniadau gwell, er enghraifft monitro achosion gwenwyno gan gyffuriau yn fanylach. Soniwyd bod adnabod y person y tu ôl i'r data wedi bod yn ganolog a'i fod yn galluogi'r staff i ddeall y person yn gyfannol yn hytrach nag adolygu set ddata'n unig.

Cadarnhaodd swyddogion y bu ymdrech fawr i gynyddu'r hysbysiadau am orddosau nad oeddent yn angheuol a chan mai dyma'r unig BCA yng Nghymru a oedd yn derbyn hysbysiadau gan yr adran achosion brys ar orddosau, sefydlwyd protocol newydd; protocol adolygu cyflym 72 awr a olygai fod angen i wasanaethau ymyrryd ynghyd â 72 awr o gyswllt wyneb yn wyneb ac o leiaf ddarparu ymyriadau, lleihau niwed a Naloxone. Ychwanegwyd bod y BCA wedi cael ei weld fel arloeswyr ar draws Cymru am wneud hyn ac roedd llawer o ddiddordeb yn y gwaith oedd yn cael ei gyflawni.

Tynnwyd sylw at y ffaith y bu gostyngiad yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ar gyfer 2019; dangosodd adroddiad diweddar y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ostyngiad o 30% yn nifer yr achosion yn ardal Abertawe a gostyngiad o 77% yn nifer yr achosion yn ardal CNPT. Soniodd swyddogion mai CNPT oedd â'r gostyngiad mwyaf yng Nghymru yn nata'r SYG.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y rhestr aros wedi gwella ar gyfer meddyginiaethau penodol yr oedd eu hangen ar unigolion i'w helpu o ran camddefnyddio sylweddau; roedd gwasanaethau pellach wedi'u comisiynu i gael mynediad cyflym at bresgripsiynau, yn enwedig i'r cleientiaid diamddiffyn. Nodwyd bod Tîm y Gymuned Cyffuriau ac Alcohol sy'n rhoi presgripsiynau i bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot yn hygyrch iawn gan nad oedd ganddo restr aros am feddyginiaethau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, soniwyd bod y broses y mae angen i bobl fynd drwyddi i gael presgripsiwn yn cymryd amser ac efallai na fydd rhai pobl a fyddai'n elwa o ymyriad presgripsiwn yn cadw ati yn yr amser mae'n cymryd i dderbyn y feddyginiaeth.

Gofynnwyd i swyddogion roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y berthynas waith â'r Bwrdd Iechyd yn ystod y pandemig; Roedd y Bwrdd Iechyd yn aelod o'r BCA ac yn cydnabod bod angen gwella gwasanaethau, fel y soniwyd yn gynharach, felly byddai'r BCA yn cychwyn ar y prosiect trawsnewid a drafodwyd yn ystod y cyflwyniad. Ychwanegwyd bod gweithio mewn partneriaeth wedi mynd o nerth i nerth yn ystod y pandemig.

Diolchodd yr Aelodau i swyddogion y Tîm Diogelwch Cymunedol am eu gwaith caled yn enwedig yn ystod y pandemig, ac am roi o'u hamser i gyflwyno i'r Pwyllgor.

2. **BLAENRAGLEN WAITH 2020-21**

Nododd yr Aelodau'r Blaenraglen Waith Craffu Adfywio a Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2020/21, a luniwyd gan y Pwyllgor yn eu Gweithdy Blaenraglen Waith diweddar.

Fel y soniwyd eisoes, cytunwyd y dylid ychwanegu tueddiadau a ffigurau Cam-drin Domestig at y Blaenraglen Waith er mwyn cael rhagor o wybodaeth a manylion gan y darparwyr arbenigol a gwasanaeth IDVA o gyfnod y cyfyngiadau symud.

3. **BLAENRAGLEN WAITH - Y CABINET**

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet at ddibenion rhoi gwybodaeth i Aelodau; Nodwyd y Blaenraglen Waith.

CADEIRYDD

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY

(O Bell Trwy Teams)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Mercher, 23 Rhagfyr 2020

Cadeirydd: **Cynghorydd S.K.Hunt**

Cynghorwyr: D.Cawsey, C.J.Jones, S.M.Penry, S.Pursey,
S.Rahaman a/ac S.A.Knoyle

**Swyddogion sy'n
Bresennol:** S.Curran, C.Griffiths a/ac K.Jones

**Gwahoddedigion y
Cabinet:** Cynghorwyr A.Wingrave a/ac L.Jones

1. **PENODI AELODAETH YR IS-BWYLLGOR CRAFFU DIOGELWCH
CYMUNEDOL A DIOGELU'R CYHOEDD**

PENDERFYNWYD: cadarnhau Aelodaeth yr Is-bwyllgor fel y'i nodir yn Atodiad C Adroddiad Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Rhagfyr, 2020

CADEIRYDD

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

NEATH PORT TALBOT COUNTY BOROUGH COUNCIL

Regeneration and Sustainable Development Scrutiny Committee

Friday 5th February 2021

Report of Simon Brennan Head of Property & Regeneration

Matter for Information

Wards Affected: All

Tourism Update

Purpose of the Report

1. To update members on the impact of Covid-19 on the Tourism sector within Neath Port Talbot.
2. To update members on the current and forthcoming activities of the Council's Tourism Team.

Executive Summary

3. The impact of the Covid-19 pandemic has been particularly hard on the tourism sector. The necessary widespread closures of accommodation, attractions, hospitality and events; coupled with restrictions on the movement of citizens during local and national lockdowns, has resulted in an inevitable loss of revenue for tourism operators in the area.
